



# Diweddariad Cymunedol

Hydref 2020



## Yn y rhifyn hwn

- T2** Prosiect Camau Bach  
Man Darganfod Newydd  
Geoparc
- T3** Gwobr Llysgenhadon Ifanc  
Taith rithwir newydd i  
athrawon dan hyfforddiant
- T4** Newyddion Cynllun  
Datblygu Lleol  
Arolwng newydd y mawndir
- T5** Cystadleuaeth ysgrifennu  
yn y Gymraeg  
Partneriaeth Amgylcheddol  
Hanesyddol
- T6** Prosiect Planhigion Ymledol  
yn y Parc Cenedlaethol  
Bro'r Sgydau
- T7** Partneriaeth Defnydd Tir Y  
Mynyddoedd Duon  
Swyddog Gweithredu  
Partneriaeth Natur Lleol
- T8** Canolfannau Gwybodaeth  
y Parc Cenedlaethol  
Grantiau Datblygu  
Cynaliadwy a Threftadaeth
- T9- T11** Digwyddiadau  
A-Y yr Awdurdod

## Helo a chroeso

i rifyn yr Hydref 2020 o'r Diweddariad Cymunedol oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**Rydym ni'n byw drwy gyfnod ansicr iawn ac ni welwyd unrhyw beth tebyg i'r chwe mis diwethaf yn ystod 70 a mwy o flynyddoedd o fodolaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.**

Cafwyd nifer sylweddol o ymwelwyr mewn lleoliadau ledled y Parc Cenedlaethol dros yr haf; lawer ohonynt yn darganfod yr hyn sydd gan y parc i'w gynnig am y tro cyntaf erioed. Er bod hyn wedi peri peth heriau sylweddol mewn rhannau penodol o'r Parc Cenedlaethol, cafwyd cydweithio agos â'n hawdurdod lleol a'r heddlu, Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill ac ymdrechwyd yn galed i reoli'r heriau hynny – yn enwedig yr holl draffig.

Mae croeso i chi gyflwyno unrhyw safbwyntiau sydd gennych am sut galla'r mesurau a osodwyd yr haf hwn gael eu gwella ymhellach. Cysylltwch drwy e-bost [enquiries@beacons-npa.gov.uk](mailto:enquiries@beacons-npa.gov.uk)

Ar adeg ysgrifennu hwn rydym yn wynebu dyfodol ansicr; ond rwy'n gobeithio fod y cylchlythyr hwn yn dangos bod llawer o waith da wedi cael ei gyflawni ledled y parc tra bo Covid ar flaen ein meddyliau ni oll ac er gwaetha'r cyfyngiadau sy'n rhan o'n bywydau

*Julian Atkins, Prif Swyddog Gweithredol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.*

## Cerrig cerdd newydd yn harddu'r A470

**Yn ystod y misoedd diweddar cafodd pedair o gerrig cerdd eu codi mewn lleoliad ar hyd Ffordd Cambria (A470) drwy'r Parc Cenedlaethol. Cafodd cerddi a gyfansoddwyd gan Owen Sheers ac Ifor ap Glyn i ddathlu'r fan ble y saif pob carreg, ei chefio ar ddarnau o Dywodfaen Pennant Las. Mae'r cerrig hyn yn rhan o fenter Ffordd Cymru ac wedi eu hariannu gan Groeso Cymru.**

Beth am i chi chwilio amdanynt y tro nesaf y byddwch yn teithio drwy'r Parc Cenedlaethol? Maen nhw i'w canfod ym Mlaen Taf/Storey Arms; cilfan Craig y Fro; cronfeydd dŵr Cantref a Llwyn-onn.

Mae mainc drawiadol o garreg newydd gael ei chwblhau hefyd yng Nghraig y Fro, o fewn 'tafliad carreg' o un o'r cerrig cerdd. Yr artist David Mackie ddyluniodd y fainc sydd â brithwaith o fywyd gwyllt ac fe'i hadeiladwyd gan y codwr waliau cerrig Alan Jones a'i fab.



Carreg cerdd  
Blaen Taf/  
Storey Arms.

Mainc  
newydd o  
garreg yng  
nghilfan Craig  
y Fro.



Staff y Parc Cenedlaethol gyda Rhodri Thomas (canol) o Cynnal Cymru

## Bannau Brycheiniog – Parc Cenedlaethol cyntaf Cymru i dderbyn hyfforddiant llythrennedd carbon!

Yr hyn yw Llythrennedd Carbon yw, 'ymwybyddiaeth o gost ac effaith carbon deuocsid mewn gweithgareddau bob dydd a'r gallu a'r ysgogiad i leihau allyriadau ar sail unigol, cymunedol a sefydliadol. Ar ddechrau mis Hydref, Bannau Brycheiniog oedd y Parc Cenedlaethol cyntaf yng Nghymru i dderbyn hyfforddiant llythrennedd carbon oddi wrth y Prosiect Llythrennedd Carbon. Nod y prosiect hwn yw sicrhau fod pob dinesydd yn derbyn gwerth o leiaf un dydd o ddysgu fel ei fod yn deall y cysylltiad rhwng gweithgareddau dynol a newid hinsawdd gan rymuso unigolion, cymunedau a sefydliadu i fynd ati i leihau allyriadau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwyr. Trefnwyd yr hyfforddiant ar-lein gan Ceri Bevan, Swyddog Cymunedau Cynaliadwy, ac aeth naw aelod o staff ati gyda Rhodri Thomas o Cynnal Cymru, sef yr unig hyfforddwr llythrennedd carbon ardstiedig yng Nghymru ar hyn o bryd. Ystyriodd y staff sut y bydden nhw'n gallu helpu i leihau eu hól-troed carbon eu hunain, ynghyd â'r gymuned ac Awdurdod y Parc.

**Am ragor o wybodaeth am yr hyfforddiant cysylltwch: [www.cynnalcymru.com/cy/carbon-literacy/](http://www.cynnalcymru.com/cy/carbon-literacy/)**

## Manteision llesiant yn sgil Prosiect iechyd meddwl Camau Bach

Daeth prosiect Camau Bach i ben ar ôl dwy flynedd ddiwedd mis Medi gyda thaith gerdded yn cadw at bellter cymdeithasol a dathliad awyr agored i'r cyfranogwyr. Ymunodd staff y Parc Cenedlaethol a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys â nhw.

Galluogodd arian oddi wrth Lywodraeth Cymru i'r prosiectau ar y cyd ac ymchwil peilot fynd rhagddynt ac o ganlyniad cafwyd cyfres o deithiau cerdded a gweithgareddau yn y Parc Cenedlaethol. Roedd rhai o'r cyfranogwyr wedi cael eu cyfeirio gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl a staff o dîm Cymunedau'r Parc Cenedlaethol oedd yn arwain. Gwnaeth seicolegwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys arwain ymchwil meintiol ac ansoddol drwy gydol y prosiect a chanfod bod awyr agored y Parc Cenedlaethol yn effeithio'n sylweddol ar atal iselder a gorbryder. Wrth gynyddu llesiant cyffredinol gwelwyd gostyngiad defnyddio gwasanaethau'r GIG, y trydydd sector a gwasanaethau argyfwng.

Yn y dathliad (gwlyb braidd!) cyflwynwyd copi o ffotograff mewn ffrâm gan bob un o'r cyfranogwyr o'r dyddiau gweithgareddau ffotograffiaeth, ynghyd â mapiau a chanllawiau i'w helpu i barhau i fforio yn y Parc Cenedlaethol. Yn ôl un cyfranogwr, "Rwyf am ddweud ei fod wedi gwneud lles mawr i fy iechyd meddwl gael gweld gymaint o'r Parc Cenedlaethol na fyddwn wedi ei weld fel arall. Bu'n ysgogiad da i fynd allan a chwrrd â phobl newydd gan roi rhywbeth i mi edrych ymlaen ato. Dwi'n gobethio y caiff rhagor o bobl yr un cyfle." Yn ôl cyfranogwr arall: "Weithiau byddaf yn gohirio apwyntiadau yn sgil gorbryder, ond roedd yr apêl o fynd am dro yn ddigon i'm hysgogi i oresgyn y gorbryder a mynychu."

**Y gobaith yw y bydd llwyddiant y prosiect hwn yn arwain at ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach a chyfluoedd rhagnodi gwyrdd. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Francesca Bell, Swyddog Datblygu Cymunedol [francesca.bell@beacons-npa.gov.uk](mailto:francesca.bell@beacons-npa.gov.uk) Ffôn: 07854997530**



Cyfranogwyr camau bach yn derbyn eu ffotograffau mewn ffrâm er gwaetha'r tywydd.

## Man Darganfod Newydd Geoparc ym Mharc Gwledig Craig-y-nos

Mae Parc Gwledig Craig-y-nos yn lle da i ddechrau fforio Geoparc Fforest Fawr, ac os nad ydych chi'n siŵr beth yw Geoparc, neu pham fod hanner gorllewinol y Parc Cenedlaethol wedi cael ei ddynddi fel hynny, yna gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â'r fan darganfod newydd i ddysgu rhagor.

Cafodd y tri monolith trawiadol eu dylunio gan artist lleol, Rubin Eynon i godi ymwybyddiaeth a dathlu'r cyrchfan UNESCO nodedig hwn. Mae'r dehongli'n cyflwyno'r Geoparc a'i ddaear ac yn eich helpu chi i gynllunio'ch darganfoddiad o'r straeon mawr sy'n llunio'r ardal hon: yr ia, y diwydiant a'r bobl.

**Grantiau Cronfa Datblygu Cynaliadwy Ar Gael**



## Tîm Addysg y Parc Cenedlaethol – yn brysur yn ystod y clo mawr!



Eleri Thomas, Swyddog Addysg, gyda'r fan drydan.

### Cludiant Parc Gwledig Craig-y-nos yn mynd yn wyrdd

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi cael ei fan drydan gyntaf. Mae'r fan, Renault Kangoo ZE33, ym Mharc Gwledig Craig-y-nos, 40 erw o erddi wedi'u tirlunio, a oedd yn gartref ar un adeg i'r soprano operatig enwog, Adelina Patti.

Bydd y cerbyd ar gael i bawb sydd â rhan mewn rheoli'r safle ac i'r tîm addysg wrth ymestyn allan ac arddangos gwaith y Parc Cenedlaethol i ysgolion a chymunedau'r ardal.

Wrth benderfynu pa ysgrifen ddylai fod ar y fan, roedd y tîm Addysg yn awyddus iawn y byddai'n dweud y stori sut mae'r fan yn cael ei 'nerthu gan yr haul' a'i defnyddio fel adnodd dysgu symudol.

Mae'r fan hon yn ymuno â'r nifer cynyddol o gerbydau cwbl drydanol yn fflyd yr Awdurdod sy'n helpu i leihau ei ddibyniaeth ar danwydd ffosil.


Meddai Kevin Booker Swyddog Systemau TG a'r Fflyd, "Bydd y cerbyd hwn yn helpu'r Awdurdod ymhellach i ostwng ei ôl troed carbon ac i fanteisio ar yr ynni adnewyddol sy'n cael ei gynhyrchu ar y safle. Mae'r Kangoo yn gallu teithio ymhell ar ôl ei gwefru, ac mae'n gerbyd hyblyg a delfrydol ar gyfer gwaith ymestyn allan, un ai fel fan fawr neu fel cerbyd yn eistedd 5 o bobl.

### Gwobr Llysgenhadon Ifanc

Bu'r chwe mis diwethaf yn gyfnod heriol i bawb. Fel arfer, byddai Tîm Addysg y Parc Cenedlaethol wedi bod allan yn addysgu, ysbrydoli a meithrin diddordeb pobl ifanc yn y canolfannau addysg a phreswyl, mewn ysgolion a gwahanol leoliadau yn y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, ni wnaeth y cyfyngiadau newydd roi stop ar y Swyddogion Addysg! Roedden nhw'n ddigon buan yn addasu'r dulliau cyflwyno arferol yn ddeunydd newydd cyffrous i'w lawrlwytho.

Yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y clo mawr, gwnaeth y Tîm Addysg gynllunio a lansio pecyn addysg newydd i feithrin diddordeb pobl ifanc a fyddai fel arfer wedi bod yn dod i'r Parc Cenedlaethol ar wibdaith ysgol. Mae amrywiaeth o weithgareddau yn yr adnodd ar-lein hwn ar gael i'w lawrlwytho: Cynllun Gwobr Llysgennad Ifanc Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, i ddysgu rhagor am y Parc Cenedlaethol. Yn ystod gwyliau haf ysgolion postiodd y Tîm Addysg heriau wythnosol; Heriau Llysgennad Ifanc, ar y cyfryngau cymdeithasol i annog pobl ifanc i fynd i'r awyr agored yn eu hardal leol a dysgu rhagor am natur; eu treftadaeth ac am gadwraeth. Cafodd yr heriau hyn eu cynllunio i ysbrydoli pobl ifanc a'u helpu gyda'u hiechyd a'u llesiant. Gellir dod o hyd iddynt yma:

[www.bannaubrycheiniog.org/dysgu/gwobr-lysgennad-ifanc-y-parc-cenedlaethol-bannau-brycheiniog/](http://www.bannaubrycheiniog.org/dysgu/gwobr-lysgennad-ifanc-y-parc-cenedlaethol-bannau-brycheiniog/)



Dysgu adnabod adar yr ardd.



Hayley Sharp, y Swyddog Addysg yn cyflwyno'r daith rithwir am gynaliadwyedd

### Taith rithwir newydd i feithrin diddordeb athrawon dan hyfforddiant

Cafwyd cais oddi wrth Dr Carol Wood, uwch ddarlithydd Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Uwchradd mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg, am 'daith rithwir' i'w myfyrwyr addysgu gwyddoniaeth, yn lle'r daith astudio flynyddol i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Felly gwnaeth Hayley Sharp, y Swyddog Addysg, greu 'taith rithwir' o'r astudiaethau achos arferol ynghylch ynni cynaliadwy a chymunedau cynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol, yn ogystal ag arddangos y datblygiadau cyffrous diweddaraf tuag at niwtraliaeth carbon. Mae'r ffilm yn arwain yr athrawon dan hyfforddiant ar daith o gwmpas Tal-y-bont ar Wysg. Yno, mae'r gymuned yn arwain y ffordd o ran defnyddio pŵer hydro a solar at lawer o ddibenion arloesol. Mae hefyd yn rhannu paneli solar newydd Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, depo newydd Warden yr Awdurdod a Pharc Gwledig Craig-y-nos ynghyd â fflyd y gronfa geir trydan gwobrwyedig. Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio'r cyfleoedd o ddysgu am fywyd go iawn a'i addasu ar gyfer addysgu ac alinio â'r cwricwlwm newydd. Dywedodd Hayley, "Yn ystod yr adeg heriol hwn rwy'n falch iawn o allu cefnogi'r ymweliad mewn ffordd newydd. Er nad oes unrhyw beth yn rhagori ar brofiad go iawn yn yr awyr agored gwnes i fy ngorau i ddarlunio rhai o'r astudiaethau achos sydd ar gynnig gan y Parc Cenedlaethol. Gobeithio y gall hyn ysbrydoli'r athrawon a'u disgyblion yn y dyfodol i barhau i ganfod cyfleoedd am ddyfodol carbon niwtral."

Am wybodaeth bellach am y daith rithwir hon ac adnoddau addysgol eraill, cysylltwch â Lora Davies [lora.davies@beacons-npa.gov.uk](mailto:lora.davies@beacons-npa.gov.uk) 07854997528

Mawndir wedi'i erydu ▶

## Arolwg pwysig y mawndir dan ofal gwirfoddolwyr yr ucheldir

**Bydd Gwirfoddolwyr yr Ucheldir yn helpu i achub mawndir Cymru drwy gyflawni arolwg mawndir ledled holl Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan ddechrau'r haf nesaf.**

Bydd y prosiect hwn ar agor i bob gwirfoddolwr sy'n ddigon profiadol mewn amgylchedd uwchdir ac sydd â lefel ffitrwydd a sgiliau llywio cymwys. Bydd y recriwtio'n dechrau yn ystod y gwanwyn nesaf ar yr amod fod cyfyngiadau Covid-19 yn cael eu codi. Bydd arolwg y mawndir yn ychwanegu at raglen waith helaeth Gwirfoddolwyr yr Ucheldir.

## e-Cribarth a rhagor!

**Er yr holl golli gwynt wrth esgyn yn serth, roedd hi'n arfer bod yn hawdd cyflwyno grwpiau o bobl i fryn mwyaf diddorol y Parc Cenedlaethol (trafodwch!) ond nid felly yn 2020!**

Dyna sut yr eginodd y syniad am e-Cribarth; beth am arwain pobl ar hyd yr union daith ond o gysur eu cartrefi eu hunain? Mae swyddog y Geoparc, Alan Bowring, bellach wedi arwain dwsinau o bobl ar deithiau Zoom o'r gefnfen wenithfaen sy'n edrych dros Barc Gwledig Craig-y-nos. Bu teithiau eraill yn boblogaidd hefyd; trip i lawr Afon Wysg o'i tharddiad hyd at y môr heb wlychu traed i enwi un, a fforio Penwyllt, sy'n lle go arbennig ar frig Cwm Tawe. Cafodd y teithiau eu rhoi at ei gilydd gyda help oddi wrth brosiect Iwerydd Geoparc, a'u recordio'n Gymraeg a Saesneg a byddant ar gael yn fuan ar wefan Geoparc i'w gwyllo yn eich pwysau.

**Cadwch lygad allan am**  
<https://www.geoparcyfforestfawr.org.uk/geo-lwybrau/>



## Newyddion Cynllun Datblygu Lleol

**Mae'n bosibl eich bod chi'n meddwl am beth sydd wedi digwydd i waith paratoi CDLI 2 – Cynllun Datblygu Lleol Amnewid y Parc Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod cynllunio 2018-2033?**

Yn dilyn casglu safbwyntiau am y strategaeth a ffeifrir yn 2019, bwriad Awdurdod y Parc Cenedlaethol oedd cytuno ar ddrafft cyflawn y Cynllun Datblygu Lleol yn gynharach yn ystod yr haf.

Ein bwriad ni bellach yw ailymweld â'r strategaeth a ffeifrir, er nad yw'n gwbl glir pryd - yn y flwyddyn newydd, gobeithio. Ein cam cyntaf fydd drafftio a cheisio cael safbwyntiau am gytundeb cyflenwi diwygiedig.

Ceir nifer o resymau am hyn:

- Mae Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 wedi cael ei osod ger bron y Senedd bellach a bwriedir ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2021. Y mae hwn yn gynllun y mae'n rhaid i'r CDLI2 gydymffurfio'n gyffredinol ag ef ac mae'n gosod heriau newydd i'r CDLI2 fynd i'r afael â nhw, nid lleiaf cyflwyno haen ranbarthol newydd o'r 'Cynlluniau Datblygu Strategol', sydd i'w paratoi gan Gydbwyllgorau Corfforaethol. Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau i eiriol yn gryf dros gynnwys Polisi Parc Cenedlaethol yng Nghrymu'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040. Pe byddai'n llwyddiannus, byddai hyn yn golygu y byddai cyd-destun cynllunio ar gyfer datblygu oddi fewn i'r Parciau Cenedlaethol yn cael eu gosod ar lefel genedlaethol, gan adael i'r CDLI2 ganolbwyntio ar ddatblygu datblygiad cymunedol priodol.
- Cytunwyd ar nodau llesiant ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac mae cytuno ar fin digwydd o ran Adroddiad Cyflwr y Parc. Rydym yn aros am ddeilliannau trafodaethau gyda rhanddeiliad am Gynllun Rheoli newydd i'r Parc Cenedlaethol, sy'n gosod cyd-destun hanfodol ar gyfer CDLI2.
- Cafodd tystiolaeth allweddol ei hoedi - rydym yn parhau i aros am gyhoeddiad gan Ystadegau Cymru am ragamcaniad poblogaeth y Parc Cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018 hyd at 2039. Mae'n ddealladwy nad yw hyn yn flaenoriaeth iddynt yn ystod y pandemig.
- Cafodd Safleoedd Ymgeiswyr Allweddol yn Aberhonddu eu tynnu yn ôl, sy'n golygu na fyddant ar gael ar gyfer datblygiad.

Er gwaetha'r oedi, ceir peth cysur o'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi egluro'n ddiweddar y bydd y CDLI cyfredol yn parhau i gael ei gydnabod fel 'Cynllun Datblygu' hyd nes iddo gael ei amnewid sy'n golygu y gall barhau i gael ei ddefnyddio fel sail i bennu ceisiadau cynllunio heibio 2022 os yw'n angenrheidiol.

Cafodd y gofyniad i gyhoeddi Adroddiad Monitro Blyneddol ei ohirio am eleni hefyd.

**Am wybodaeth bellach cysylltwch â Chris O'Brian, Uwch Swyddog Cynllunio**  
[christopher.obrien@beacons-mpa.gov.uk](mailto:christopher.obrien@beacons-mpa.gov.uk) Ffon: 07966522929



Saith Maen.

## Gweithio gyda'n gilydd i ofalu am ein treftadaeth

**Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnwys rhai o'r tirluniau, safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol gorau a drysorir fwyaf yng Nghymru. Mae'n hamgylchedd hanesyddol yn ganlyniad i filoedd o flynyddoedd o ryngweithio dynol â'r tirlun a natur.**

Nod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yw datblygu Partneriaeth Amgylcheddol Hanesyddol i'r Parc. Mae'r fenter hon yn ceisio dwyn ynghyd aelodau o'r gymuned, grwpiau cadwraeth, sefydliadau treftadaeth ac Awdurdod y Parc i gydweithio i hyrwyddo cadwraeth, dealltwriaeth a mwynhad o'n treftadaeth.

Bwriedir i'r bartneriaeth weithio tuag at gynhyrchu Cynllun Gweithredu'r Amgylchedd Hanesyddol i arwain a rhoi canolbwynt i'r gwaith dros y blynyddoedd a ddaw. Bydd manylion pellach yn ymddangos ar wefan yr Awdurdod pan fyddant ar gael ac edrychwch allan am ddiweddariad yn y Diweddariad Cymunedol nesaf.

## Y clo mawr yn ysbrydoli awduron Bannau Brycheiniog

**Rydym ym Mharc Cenedlaethol y Bannau wedi bod yn dathlu'n diwylliant hefyd drwy drefnu cystadleuaeth ysgrifennu yn y Gymraeg cyntaf y Parc.**

Cyfle i bobl fynegir hyn sydd yn bwysig iddynt am eu milltir sgwâr o dan y teitl 'Y Bannau a finau' oedd hwn. Cefnlen y gystadleuaeth, a gynhaliwyd ym mis Mehefin, oedd y clo mawr a phwysigrwydd 'y pethau bychain' a lleol a gafodd ei ategu gan y sefyllfa yma.

Ffocws ysgrif Bethan Price o Bont Senni a ddaeth yn fuddugol yn y categori dros 25 mlwydd oed, oedd coeden ywen hynafol ac enwog mynwent eglwys Defynnog. Iddi hi mae'r lle'n gysegredig, a bu'n 'gysgod i genedl'. Fel cyd-ddigwyddiad brawd Bethan, Rhys Jones ddaeth yn ail gyda'i 'Gwydd i'r Copaon' yn drydydd oedd Katie Jones o Langynidr.

Rachel Bedwin o Orpington, Kent a ddaeth yn fuddugol yn y categori 'dysgwr'. Hiraethu am gael bod allan yn yr awyr agored unwaith eto yn dringo ac 'anadlu'r mynyddoedd' a mwynhau'r golygfeydd oedd ei hymateb hithau. Jane Ricketts Hein o'r Clas-ar-wy ddaeth yn ail a Simon Jones yn drydydd.

Cafodd y beirniaid fwynhad arbennig o ddarllen darnau'r awduron ifainc. Cerdd rydd 'Camlas' gan Elena Puw a ddaeth yn fuddugol yn y categori 11 i 18 oed. Cerdd ddarluniadol yn llawn delweddau mewn geiriau oedd hon. Yn ail oedd Beca Hiscocks. Dau englyn gan Elena Puw a enillodd y drydedd wobwr. Roedd ei brawd Iolo yn llawn haeddu'r wobwr gyntaf yn y categori o dan 11 oed gyda'i gerdd ddigri am hwyaden yn clwydo ar do cwch ar gamlas Aberhonddu.

### Llyn y Fan gan Elena Puw

Yn falch daeth o Lyn y Fan - ato ef,  
Bod teg, yn dwyn cusan  
A her o'r dyfroedd arian,  
I lanc o dylwyth y lan.

Ond o'r tir cyn hir aeth hon - i gilio'n  
Llawn galar dan lasdon  
Heb 'r un wylodd ger ei bron,  
Yn gafael mewn atgofion.



Problemau parcio yng Ngwlad y Sgydau.

## Haf Heriol ym Mro'r Sgydau

Mae eleni wedi bod yn heriol am nifer o resymau. Aeth cymunedau Bro'r Sgydau o heddwch a thawelwch y cyfnod clo i weld mwy o ymwelwyr nag erioed o'r blaen yn teithio yno ar ôl llacio'r cyfyngiadau teithio. I lawer, dim ond yn yr wythnosau diwethaf mae nifer yr ymwelwyr wedi mynd yn ôl i lefelau 'normal'.

Hoffai Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddiolch i'w holl bartneriaid am eu gwaith yn ystod y cyfnod anodd eleni. Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol lawer o gefnogaeth ar lawr gwlad ac o bell wrth reoli'u safleoedd, cynhyrchu arwyddion a thrwy bresenoldeb eu staff. Rhoddodd Heddlu Dyfed Powys a Heddlu De Cymru adnoddau ychwanegol yn yr ardal i batrolio ac i atal parcio difeddwl. Roedd Swyddogion Gorfodaeth Traffig adran Prifffyrdd Cyngor Sir Powys hefyd yn yr ardal mor aml â phosibl yn rhoi tocynnau parcio ar gerbydau oedd wedi'u parcio'n anghyfreithlon.

Gweithiodd tîm Warden yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ddyfal yn ystod ac ar ôl y cyfnod clo a daeth yn amlwg yn fuan iawn fod angen rhagor o staff i reoli cymaint o bobl. Dyrannwyd arian i gyflogi rhagor o staff i 'Gyfarfod a Chyfarch' dros dro ac i gynorthwyo tîm y Wardeniaid i reoli'r llwybrau o amgylch y sgydau.

Er bod llai o ymwelwyr erbyn hyn, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid eisoes yn cynllunio ar gyfer tymor 2021. Mae'n rhagweld y bydd llawer iawn yn ymweld â'r Parc y flwyddyn nesaf eto os bydd yna'n dal gyfyngiadau ar deithio tramor.

## Prosiect Planhigion Ymledol yn y Parc Cenedlaethol – diweddariad

Cafodd tymor y gwaith maes ei gwtogi yn sgil clo mawr pandemig Covid-19 ac oherwydd hynny roedd y Tîm yn hynod o brysur yn parhau i ganolbwyntio eu hymdrechion arolygu a rheoli ar rywogaethau ymledol anghyfeffin Jac y Neidiwr – *Impatiens glandulifera*, a Chlymog Japan – *Fallopia japonica* ar hyd dalgylchoedd Afon Wysg ac Afon Tawe ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae'r rhywogaethau hyn o blanhigion i'w canfod ar hyd cyrsiau dŵr a chilffyrdd, ar safleoedd tir llwyd ac ardaloedd amwynder, mewn gerddi, ar dir amaethyddol ac yn y blaen.

Ymhlith uchafbwyntiau'r prosiect mae'r canlynol:

### Cwm Wysg Uchaf

- Sicrhau dau grant gan Lywodraeth Cymru oddi wrth y Gronfa Lleuedd Lleol ar gyfer Natur:
- a) Defnyddio contractwr i roi triniaeth chwynladdwr i'r clymwr ar hyd y ddau lan sef hyd o 10km Afon Wysg rhwng Llanhamlach a Llansbyddid, ger Aberhonddu. Hoffai'r Tîm fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un o'r 25 tîrffeddiannwr y cysylltwyd â nhw yn ardal y prosiect a oedd yn ddigon caredig i ganiatáu mynediad i'w tir: A
- b) Defnyddio contractwr arbenigol i roi triniaeth 'stêm' i Chwynpigmi Seland Newydd - *Crassula helmsii*, rhywogaeth ymledol anghyfeffin arall, sy'n tyfu mewn llyn ar Fynydd Illtud ger Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol.
- Gwirfoddolwyr o Aberhonddu sy'n clirio balsam o Gaeau'r Ynys a'r Promenâd a Grŵp Coetir Cymunedol Llangatwg sy'n clirio balsam yn Nhŷ'r Ash ger Crucywel,
- Gorfod clirio llawer yn llai o flasam nag yn 2019 o Barc Newton Green yn Aberhonddu ac ar safle ger Cronfa Ddŵr Crai.
- Clirio balsam o Lôn Crug (safle newydd) yn Aberhonddu.
- Cynghori amrywiol dirfeddiannwr am y ffordd orau o reoli rhywogaethau ymledol ar eu heiddo.

### Cwm Tawe Uchaf

Rydym yn credu ein bod ni wedi lleoli tarddiad y balsam yn Nhawe Uchaf a byddwn yn gweithio gyda'r tîrffeddiannwr i'w reoli, fel nad yw ymdrechion ymhellach i lawr yr afon mewn perygl o ail-heintiad wrth i ddeunydd y planhigion gael ei gario i lawr yr afon.

Ymhlith uchafbwyntiau eraill yng Nghwm Tawe mae:

- Dod o hyd i a gorfod clirio llawer llai o falsam a chlymog ym Mharc Gwledig Craig-y-nos a llawer llai o falsam ar safle ar gyrion pentref Pen y Cae, gan ddangos bod gwaith rheoli cychwynnol y llynedd wedi bod yn werth chweil.
- Clirio balsam o safle newydd yng Nglyn Tawe.
- Tîrffeddiannwr yn cymryd rheolaeth ac yn dilyn grantiau llynedd ar gyfer rheoli clymog Japan.

Hoffai'r Tîm ddiolch i'r holl dirfeddiannwr, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr ac aelodau'r cyhoedd sydd wedi adrodd yn ôl neu helpu i reoli planhigion ymledol yn ystod y flwyddyn anodd hon. Diolch yn arbennig i Dîm Warden y Parc Cenedlaethol a wnaeth ymroi i gefnogi'r Tîm a'u gwaith er gwaetha'r amserlen brysur oedd ganddynt.

### Sut allwch chi helpu'r prosiect?

Wrth adrodd yn ôl am sylwi ar rywogaethau ymledol anghyfeffin, defnyddiwch y manylion cyswllt isod neu anfon yn syth at BIS: [www.bis.org.uk](http://www.bis.org.uk) neu ffoniwch: 01874 610881. Gallwch hefyd gyflwyno eich cofnod am blanhigyn ymledol i BIS gan ddefnyddio WiReD neu ddefnyddio Ap y Ganolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol ar eich ffôn symudol.

**Os oes diddordeb gennych mewn helpu neu os hoffech unrhyw wybodaeth bellach am y prosiect cysylltwch â Beverley.Lewis@beacons-[npa.gov.uk](http://npa.gov.uk) Ffoniwch: 07854 997 508**



Trin Clymog Japan ar hyd Afon Wysg



Maria yn lansiad Prosiect Penpont yn Aberhonddu gyda Rob MacFarlane, awdur nodedig a dyn sy'n caru natur.

## Penodi Swyddog newydd i gefnogi Partneriaid Natur Lleol

Ym mis Awst roeddem ni'n falch o groesawu ein Swyddog Gweithredu Partneriaeth Natur Lleol newydd at y Tîm Ecoleg.

Mae gan Maria Golightly nifer o flynyddoedd o brofiad o weithio gyda phartneriaethau i wella natur sy'n canolbwyntio ar gymunedau ledled Cymru, ac felly teimlwn ei bod hi mewn sefyllfa wych i helpu i gefnogi Partneriaid Natur Lleol i weithredu Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Er bod y Parc Cenedlaethol yn gallu, ac wedi, mynd i'r afael â sialensiau mawr; mae'r heriau y mae natur yn eu hwynebu yn rhy fawr i unrhyw sefydliad, cymuned neu dirfeddiannwr ymdopi'n unigol â nhw. Dim ond drwy gydweithio y gellir adfer natur ar raddfa ystyrion - sef drwy gydweithio ledled y ffiniau daearyddol, ar draws y gwahanol ddefnydd o'r tir a thrwy gynnwys yr holl bobloedd. Gyda hyn yn gefndir y daeth y Partneriaid Natur Lleol at ei gilydd gan wneud i mwyaf o'r ymdrechion i adfer natur a gweithio tuag at ddyfodol sy'n gosod natur yn ganolog iddo - i bawb.

**Er mwyn darganfod rhagor, gellir gweld y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yma:**  
<https://www.bannaubrycheiniog.org/amgylchedd/cynllun-gweithredu-adfer-natur/>

Ar hyn o bryd mae Maria'n mynd i'r afael â'r gweithredoedd a amlinellir yn y cynllun, gan lunio syniadau am y ffordd orau o'u cyflenwi a pharatoi am gyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio. Felly nawr yw'r amser delfrydol i gysylltu â Maria a gofyn cwestiynau neu sgwrsio am sut y gallwch gymryd rhan yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Gellir cysylltu â hi yma [maria.golightly@beacons-npa.gov.uk](mailto:maria.golightly@beacons-npa.gov.uk)



Hyfforddi Llysgenhadon ar y Mynyddoedd Duon

## Partneriaeth Defnydd Tir Y Mynyddoedd Duon

**Partneriaeth Defnydd Tir Y Mynyddoedd Duon (Y Bartneriaeth) mae hon yn bartneriaeth arloesol, draws-ffiniol ymhlith tirfeddiannwyr lleol, porwyr a chyrrff rheoleiddio perthnasol gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a Natural England.**

Mae'r Bartneriaeth, a sefydlwyd drwy Gronfa Natur Llywodraeth Cymru yn 2015, yn hybu adferiad a rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Y Mynyddoedd Duon ac yn ceisio gwella llesiant a gwytnwch economaidd y sawl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal eiconig hon. Yn ddiweddar, llwyddodd y Bartneriaeth i gyflenwi Prosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy am dair blynedd gwerth £1.1m dan nawdd Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yn cynnwys:

- Adfer, ail-wlychu ac ail-lysieuo 60ha o fawndir
- Dros 320ha o waith rheoli rhedyn cynaliadwy i wella mynediad i ymwelwyr, porwyr a da byw
- Adfer dros 3,000 metr o lwybrau troed i wella mynediad i ymwelwyr tra bo adnoddau naturiol yn cael eu diogelu ymhellach
- Darparu gwaith rheoli grug i wella cynefinoedd ac ecosystemau
- Comisiynu model rheoli rhedyn ar gyfer yr ardal i gyd, sy'n torri tir newydd
- Monitro helaeth ac arolygon am adnoddau naturiol Y Mynyddoedd Duon
- Datblygu Taliad Arloesol ar gyfer Gwasanaethau Ecosystemau a fydd yn helpu i siapio polisi'r dyfodol; Cefnogi sefydlu Rhwydwaith Ffermwy'r Ifanc Y Mynyddoedd Duon
- Galluogi dros 500 o blant ysgolion lleol i gyfranogi yn rhaglen addysg y Prosiect gan gofnodi dros 2,500 o oriau dysgu
- Hyfforddi 56 o fusnesau lleol a darparwyr twristiaeth i fod yn Llysgenhadon Mynydd a Gweundir
- Cefnogi datblygu Rhwydwaith Llysgennad Y Mynyddoedd Duon
- Sefydlu rhaglen Llysgennad Ifanc Y Mynyddoedd Duon
- Dyfarnu tâl o £45,000 ar gyfer uwch-sgilio, dysgu a chryfhau sgiliau gwledig i unigolion a grwpiau
- Cefnogi dros 30 o bobl, yn cynnwys Ffermwy'r Ifanc, i hyfforddi a chymhwyso mewn perthynas â sgiliau gwledig newydd
- Cyflenwi digwyddiadau cymunedol, gweithgareddau ac amrywiaeth o fentrau cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar ymweliad cynaliadwy
- Creu 3 swydd yn y gymuned wledig



Y Bartneriaeth hon bellach yw un o'r Partneriaethau graddfa-tirlun mwyaf a'r mwyaf llwyddiannus hyd yma, ac mae wedi gallu cyflawni ymagwedd integredig at gyflenwi i ddiwallu anghenion amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd. Mae'n fodel enghreifftiol ar gyfer Partneriaeth cydweithredol sy'n gosod pobl leol wrth galon y broses o wneud penderfyniad. Mae'r Bartneriaeth bellach yn ymgymryd ag amrywiaeth o fentrau i ddatblygu a sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy i'w hun i barhau â'r adferiad ac â rheoli cynaliadwy Y Mynyddoedd Duon am genedlaethau i ddod.

## Adrodd am Faterion Hawliau Tramwy

Gellir sôn am unrhyw faterion yn ymwneud â hawliau tramwy fel difrod i lwybrau troed, camfeydd neu fynegbyst wrth ein Swyddog Hawliau Tramwy, Eifion Jones:

eifion.jones@beacons-npa.gov.uk  
neu ffonwch 07854 997563

## Gwasanaethau Cynllunio

Ewch i [www.bannaubrycheiniog.org/cynllunio/](http://www.bannaubrycheiniog.org/cynllunio/) neu ffonwch y Dderbynfa ar 07973 781479 neu 07973 781510

## Ymholiadau am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

I gael mwy o wybodaeth a chyngor am y Gronfa hon ewch i <https://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/cynaliadwyedd-2/y-gronfa-datblygu-cynaliadwy/> neu cysylltwch naill ai â

Helen Roderick ar 07790 944 443  
neu Ceri Bevan ar 07854 997 578  
Ebostiwch  
helen.roderick@beacons-npa.gov.uk  
ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau i'r chwe mis nesaf:

6 Ionawr 21  
31 Mawrth 21  
2 Mehefin 21

## Canolfannau Gwybodaeth y Parc Cenedlaethol

Mae Canolfan Ymwelwyr ac Ystafelloedd Te y Parc Cenedlaethol ar agor yn ystod oriau arferol y gaeaf 10am-4pm bob dydd ac eithrio Noswyl Nadolig (cau am 3pm) a Diwrnod Nadolig (ar gau).

E-bost: [visitor:centre@beacons-npa.gov.uk](mailto:visitor:centre@beacons-npa.gov.uk) Ffôn: 01 874 623366

Er eich diogelwch:

Nifer cyfyngedig sydd yn siop y Ganolfan Ymwelwyr ar unrhyw adeg unigol, a rheolir gan system draffig un ffordd. Rhaid defnyddio gorchudd wyneb a jel diheintio dwylo a chadw at bellter cymdeithasol o 2 fetr ar wahân.

Mae llai o le yn yr Ystafelloedd Te er mwyn dilyn rheolau cadw at bellter cymdeithasol. Rhaid gwisgo gorchudd wyneb oni bai eich bod yn bwyta neu'n yfed wrth y bwrdd. Mae digon o le i eistedd yn yr awyr agored.

Mae'r holl safle hefyd yn rhan o raglen Profi ac Orlhain GIG ac mae codau QR ar gael i'w sganio wrth ddod i mewn.

**Ynghyd â'i bartneriaid mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi agor Canolfan Wybodaeth y Fenni. Bydd ar agor 10am – 4pm ddydd Llun i ddydd Sadwrn yn y cartref newydd yn Neuadd y Farchnad, Stryd y Groes. E-bost: [abergavennytic@yahoo.com](mailto:abergavennytic@yahoo.com) Ffon: 01873 853254. Mae mesurau Covid-19 mewn lle fel uchod.**



Canolfan Wybodaeth i Dwristiaid y Fenni

## Grantiau Cronfa Datblygu Cynaliadwy Ar Gael

Mae'r Grant Datblygu Cynaliadwy yn cefnogi prosiectau ar hyn o bryd ac yn ddiweddar mae wedi cefnogi Ymddiriedolaeth Ffermio Cadwraeth i ddatblygu eu prosiect Tir ac Entrepreneuriaid. Ymhlith amcanion y prosiect hwn ceir cyfleoedd newydd ar gyfer ffermio, swyddi gwledig newydd a thyfu bwyd iach a maethlon-gyfoethog i'n cymunedau. Os oes syniad am brosiect gennych chi yr hoffech ei drafod cysylltwch â ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk neu helen.roderick@beacons-npa.gov.uk. Rydym yn chwilio'n arbennig am brosiectau a fydd yn lleihau'r defnydd o garbon neu'n cynyddu natur a bioamrywiaeth yn ein cymunedau.

**Am ragor o wybodaeth am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ewch i'n gwefan <https://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/cynaliadwyedd-2/y-gronfa-datblygu-cynaliadwy/>**

**Gweler y panel am ddyddiadau cau ar gyfer ymgeisio.**

## Grant Newydd ar agor nawr – Grant Treftadaeth Mewn Lleoedd

Mae grantiau hyd at £5,000 ar gael i unigolion a grwpiau cymunedol ymgymryd â phrosiectau i gadw a gwella asedau treftadaeth ein trefi a'n pentrefi.

Mae cronfa'r grant hwn yn ceisio hybu atgyweirio priodol ac amserol ar gyfer adeiladau a strwythurau o bwysigrwydd pensaernïol a hanesyddol, neu welliannau wrth ddehongli asedau hanesyddol a leolir yn nhrefi a phentrefi'r Parc Cenedlaethol.

**Os ydych am wybod rhagor am y grant a bod gennych brosiect sydd angen ei ariannu e-bostiwch [placeplans@beacons-npa.gov.uk](mailto:placeplans@beacons-npa.gov.uk)**

**Yr un yw'r dyddiad cau ar gyfer ymgeisio am y grant hwn a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (gweler y panel)**

## Pabell Fawr Gymunedol Ar Gael

Mae cynllun benthg y Babell Fawr Gymunedol yn cynnig cyfle i grwpiau, ysgolion, elusennau a sefydliadau dielw eraill o fewn y Parc Cenedlaethol ddefnyddio'r Babell Fawr Gymunedol 20'x30' yn eu digwyddiadau lleol. Gofynnir am rodd.

I gael ffurflenni archebu, cysylltwch â Ceri Bevan ar 07854997578  
ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk

## Gweddarllodiadau

Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod ar gael i'w gweld trwy ficrowefan ein gweddarllodiadau. Ewch i:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/gweddarlledu/>

## Digwyddiadau

Gwiriwch gyda gwefan Llywodraeth Cymru am fanylion am gyfyngiadau diweddaraf yn y Parc Cenedlaethol a'r cyffiniau.  
<https://llyw.cymru/cyfnod-clo-lleol>

Mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau ar-lein ar hyn o bryd. Am fanylion pellach am weithgareddau a digwyddiadau yn y Parc Cenedlaethol ewch i [www.breconbeacons.org/cy/whats-on](http://www.breconbeacons.org/cy/whats-on)

**Dydd Iau 19 Tachwedd 1830-1930 ar-lein. Am ddim.**

## Parti Sêr!

Ymunwch â Chymdeithas Seryddiaeth Wysg ynghyd â Thwristiaeth Tal-y-bont ar Wysg am barti sêr ar Zoom. Defnyddir y feddalwedd planetariwm diweddaraf i chi fod yn rhan o'r digwyddiad Awyr Dywyll. Gallwch weld y sêr ar lechen, cyfrifiadur neu ffôn, a byddwch yn teimlo fel petaech chi yn Nhal-y-bont ar Wysg ei hun yn syllu ar awyr y nos!

Cofrestrwch yma:

[www.eventbrite.co.uk/e/parti-seren-tickets-124282178341](http://www.eventbrite.co.uk/e/parti-seren-tickets-124282178341)



Awyr Dywyll



Day2Stay



## Cadwch mewn cysylltiad â'r diweddaraf

Erbyn hyn mae hyd yn oed mwy o ffyrdd i gael gwybod y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.



Gallwch gysylltu â ni ar @croesobannaub



Dilynwch ni drwy Facebook  
www.facebook.com/bannaubrycheiniog



Gweler y fideos ar ein sianel Youtube  
www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA



www.instagram.com/breconbeacons

## A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau. Mae holl staff y Parc Cenedlaethol bellach yn gweithio gartref ac mae'r brif swyddfa yn Aberhonddu (Plas y Ffynnon) ar gau i'r cyhoedd. Os nad oes gennych linell uniongyrchol ar gyfer swyddog, ffoniwch y Dderbynfa ar 07973 781479 neu 07973 781510.

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Ymholiadau cyffredinol	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	07973 781479 07973 781 510
Addysg, Dehongli a Gwybodaeth	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	07973 781479 07973 781 510
Adnoddau Dynol	Liz Lewis	elizabeth.lewis@beacons-npa.gov.uk	07854 997 520
Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, 'Y Ganolfan Fynydd', Libanus	Gwasanaethau Ymwelwyr	npvc@beacons-npa.gov.uk	01874 623366
Cyfathrebu	Bronwyn Lally	communications@beacons-npa.gov.uk	07854 997 555
Cymunedau cynaliadwy	Ceri Bevan/Helen Roderick Francesca Bell	communities@beacons-npa.gov.uk	07854 997 578 / 07790 944 443 / 07854997530
Cyllid	Elaine Standen	elaine.standen@beacons-npa.gov.uk	07854 997 516
Cynllun Rheoli	Matthew Scanlon	matthew.scanlon@beacons-npa.gov.uk	07854 997 576
Ecoleg	Rebecca Price/ Nicola Davies	rebecca.price@beacons-npa.gov.uk/ nicola.davies@beacons-npa.gov.uk	07854 997 537/ 07854 997 514
Gwasanaethau Democraidd a Swyddfa	Julia Gruffydd	julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk	07976 812 832
Geoparc Fforest Fawr	Alan Bowring	alan.bowring@beacons-npa.gov.uk	07854 997 557
Gorfodi Cynllunio	Kathy Jenkins	enforcement@beacons-npa.gov.uk	07966 523 763
Gweinyddiaeth y Gwasanaethau Cynllunio	Jane Pashley	planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk	07966 523 763
Gwirfoddoli	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	07973 781479 07973 781 510

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian  
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

## A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod  
am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Hawliau Tramwy	Eifion Jones	eifion.jones@beacons-npa.gov.uk	07854 997 563
Parc Gwledig Craig-y-nos Pen-y-Cae	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	07973 781479 07973 781 510
Prif Weithredwr	Julian Atkins	angharad.hawkes@beacons-npa.gov.uk	07854 997 533
Strategaeth a Pholisi Cynllunio	Helen Lucocq	helen.lucocq@beacons-npa.gov.uk	01874 620442
Technoleg Gwybodaeth	Tîm TG	it@beacons-npa.gov.uk	07973 781479 07973 781 510
Treftadaeth	Alice Thorne Archaeoleg Janet Poole Cadwraeth Adeiladau	alice.thorne@beacons-npa.gov.uk janet.poole@beacons-npa.gov.uk	07854 997 575 ebostiwch os gwelwch yn dda
Twristiaeth gynaliadwy	Richard Tyler	richard.tyler@beacons-npa.gov.uk	07854 997 549
Y Gwasanaeth Wardeniaid	Judith Harvey	judith.harvey@beacons-npa.gov.uk	07854 997510



### Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian  
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

ffotograffau © APCBB

## DEWCH I FANNAU BRYCHEINIOG. YN DDIOGEL

### BYDDWCH YN SICR

o gydymffurfio gyda chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru

### CADWCH BELLTER CYMDEITHASOL

arhoswch y pellter cywir oddi wrth bobl eraill pob amser a pheidiwch â heidio. Os yw'n teimlo fod gormod yno, mae gormod yno

### BYDDWCH YN GEFNOGOL

mae'n rhaid i ni gydweithio i wneud yn siŵr fod twristiaeth Bannau Brycheiniog yn ddiogel i'r staff, i'r gymuned ac i ymwelwyr fel ei gilydd.

### BYDDWCH DDIOGEL

eich cadw chi eich hunan a phobl eraill yn ddiogel ddylai fod eich blaenoriaeth bennaf

### BYDDWCH YN GALL

cynlluniwch ymlaen llaw, cofiwch na fydd yr holl gyfleusterau ar agor

### BYDDWCH YN GADARN

ynghylch hylendid dwylo da

### BYDDWCH YN SENSITIF

o'n hamgylchedd unigryw, naturiol – cofiwch gadw at y Codi Cefn Gwlad a mynd â'ch ysbwriel gartre gyda chi

### BYDDWCH YN SYNHWYROL

os oes gennych chi neu unrhyw un arall yn eich cartref unrhyw symptomau o gwbl o COVID-19, peidiwch ag ymweld – arhoswch gartref am o leiaf 14 diwrnod

#DewchiFannauBrycheiniogYnddiogel



BANNAU BRYCHEINIOG  
BRECON BEACONS  
EN PARC CENEDLAETHOL | OUR NATIONAL PARK